

Fersiwn	CY1
Dyddiad Diwygio Diwethaf	

Y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Diversity and Inclusion Team
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

Pecyn Cymorth Monitro Cydraddoldeb Canllaw i Reolwyr a Staff



RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Pecyn Cymorth Monitro Cydraddoldeb
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	Dd/B
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	
Swyddog Adolygu	Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol Carfan yr Uwch Reolwyr
Dyddiad Adolygu	
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Hydref 2019
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi'i chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	
Uwch Reolwyr y Cyngor	
Y Cabinet	

CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	1
1.1.	Diben y pecyn cymorth.....	1
1.2.	Egwyddorion sylfaenol a phethau i'w cofio.....	1
1.3.	Cefndir a'r gyfraith.....	2
1.4.	Beth am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol?	2
2.	Deall monitro cydraddoldeb	3
2.1.	Beth yw monitro cydraddoldeb?	3
2.2.	Pam mae angen i mi fonitro?	4
3.	Beth sydd raid i mi ei wneud?	5
3.1.	Arferion gorau o ran monitro	6
3.1.1.	Trefn a geiriad cwestiynau	6
3.2.	Pryd mae angen i mi fonitro?	7
3.3.	Storio data sydd wedi'u casglu	7
3.4.	Adrodd	8
3.5.	Ar gyfer beth y caf i ddefnyddio data am gydraddoldeb?	8
4.	'Sut i ofyn' - Cwestiynau a phryderon cyffredin	9
	Adnoddau neu gapasiti cyfyngedig	9
	Nifer yr ymatebion yn rhy fach i gyfiawnhau monitro cydraddoldeb	9
	Dydy cwsmeriaid ddim eisiau cael eu gofyn	9
5.	Cwestiynau a gwybodaeth gyswllt	10
	Atodiad 1	11
	Ffurflen fonitro - Arferion gorau (modd i wasanaethau ei haddasu) (CASGLU AR-LEIN/YN DDIGIDOL).	11
	Ffurflen fonitro - Arferion gorau (modd i wasanaethau ei haddasu) (CASGLU AR BAPUR/AR LAFAR).	16
	Adnoddau defnyddiol	19

1. **CYFLWYNIAD**

1.1. **Diben y pecyn cymorth**

Diben y pecyn cymorth yw eich helpu chi i ddeall cydraddoldeb yn eich adran, a'i fonitro. Bydd y pecyn cymorth yn esbonio beth yw gwaith monitro cydraddoldeb a pham mae ei angen, yn ogystal ag egwyddorion a chanllawiau i'w hystyried wrth weithredu gwaith monitro yn eich adran chi.

1.2. **Egwyddorion sylfaenol a phethau i'w cofio**

Mae monitro cydraddoldeb yn gam pwysig i'w gymryd er mwyn gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a pherthnasol i'n cwsmeriaid.

Mae monitro cydraddoldeb yn ein galluogi ni i archwilio'r data sydd wedi'u casglu ynghyd (boed yn fewnol neu'n allanol) a nodi meysydd ag anghysondebau. Mae hyn yn bwysig, oherwydd gall ein helpu ni i ddod i benderfyniadau gwybodus, a buddsoddi yn y manau cywir.

Mae defnyddio data cadarn yn golygu bod modd i ni wneud addasiadau wedi'u teilwra, gwella mynediad at wasanaethau i'n cwsmeriaid, ac arbed arian ar newidiadau diangen neu amherthnasol. Mae modd i ni hefyd ddefnyddio'r un data i nodi diffygion mewn meysydd. Os yw data'n dangos bod pobl â nodwedd warchoddedig benodol (e.e. anabledd) ddim yn defnyddio un o'n gwasanaethau neu ein hadeiladau, mae modd i ni ddechrau ymchwilio i ddeall pam (e.e. mynediad hygyrch, rampiau ac ati) a chymryd y camau angenrheidiol i'w wella.

Mae'r un egwyddorion yn berthnasol yn fewnol wrth ystyried lefelau staffio mewn gwahanol feysydd ac adrannau. Gall deall pam fod gyda ni niferoedd anghymesur o isel neu uchel o un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig mewn maes penodol ein helpu ni i ddod yn weithle mwy cynhwysol ac amrywiol.

Wrth gynnal gwaith monitro cydraddoldeb a'i gwblhau, cofiwch fod monitro yn:

- hanfodol i'r Cyngor wella'n barhaus a bod yn gynyddol gynhwysol
- dydy hi ddim yn groes i gyfreithiau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac mae cymryd rhan yn gwbl ddewisol
- allweddol i wella eich gwasanaeth a'i wneud yn fwy hygyrch i bawb.

Cofiwch weithiau y bydd rhai pobl yn meddwl bod monitro yn tarfu arnyn nhw neu'n ddiangen, felly mae'n bwysig deall ac egluro'r angen am waith monitro cydraddoldeb. Yn gyffredinol, mae pobl yn hapus i ymateb i gwestiynau mewn perthynas â monitro cydraddoldeb ar yr amod eich bod chi'n rhoi digon o wybodaeth am eu defnydd a'r rhesymu y tu ôl i'r cwestiynau. Mae rhoi sicrwydd i'r rheiny sy'n ymateb bod data monitro yn ddienw a fydd y data ddim yn cael eu defnyddio i wahaniaethu yn golygu bod modd i'r data fod mor gadarn â phosibl. Mae hyn yn rhoi proffil mwy cywir y mae modd ei ddefnyddio i ddod i benderfyniadau gwybodus.

1.3. Cefndir a'r gyfraith

Mae gyda'r Cyngor rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), sy'n rhan o'r Ddeddf, i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth - yn ogystal ag ymddygiadau eraill wedi'u gwahardd sy'n rhan o'r Ddeddf - wrth ddarparu gwasanaethau, boed y rheiny i staff, trigolion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. O dan y Ddeddf, rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw dyledus i'r angen i:

- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.
- hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

Mae rhan o'n dyletswyddau o dan y PSED yn cynnwys yr angen i nodi bob hyn a hyn yr wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd gyda'r Cyngor, a nodi a chasglu gwybodaeth sydd ddim gyda'r Cyngor. Rhaid i ni hefyd nodi a chasglu gwybodaeth am wahaniaethau o ran cyflogau yn ôl nodweddion gwarchoddedig er mwyn cyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ar sail anabledd ac ethnigrwydd.

Mae gyda'r Cyngor hefyd [Gynllun Cydraddoldeb Strategol](#) sy'n nodi sut rydyn ni'n bwriadu bodloni ein hymrwymiad i rwymedigaethau a chyfrifoldebau ychwanegol sydd wedi'u nodi'n rhan o'r PSED a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb cyfredol ac yn manylu ar y camau i'w cymryd er mwyn eu cyflawni. Mae monitro cydraddoldeb yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni nifer o'r amcanion yma.

1.4. Beth am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol?

Camsyniad cyffredin yw bod y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ddim yn caniatáu gwaith monitro cydraddoldeb, neu fod monitro cydraddoldeb yn 'or-gasglu' ac felly'n anghyfreithlon.

Dydy'r GDPR ddim yn gwahardd casglu data am gydraddoldeb, ond yn hytrach mae'n gorfodi awdurdodau megis y Cyngor i ystyried a chyfiawnhau pam a sut y caiff data eu defnyddio.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiadau eraill sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf. Mae monitro cydraddoldeb yn bwysig er mwyn cyflawni'r nod yma, gan ei fod yn ein galluogi i nodi anghysondebau o ran niferoedd mewn rhai meysydd.

Mae ateb cwestiynau monitro cydraddoldeb yn wirfoddol, sy'n golygu bod gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth y rhyddid i ddewis a dethol pa ddata maen nhw'n eu datgelu. Mae data monitro cydraddoldeb bob amser yn cael eu prosesu a'u cyhoeddi (lle bo angen) yn ddiennw i sicrhau bod dim modd adnabod unigolion o'r wybodaeth a gaiff ei chasglu. Ceir rhagor o wybodaeth am gasglu a phrosesu data yn ddiennw yn **adrannau 3.2. – 3.4. y ddogfen yma.**

Mae'n bwysig nodi bod gyda'r GDPR gymalau sy'n ymwneud â phrosesu data categori arbennig, gan gynnwys yr angen i beidio byth â defnyddio data personol i ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud ag unigolyn, nac achosi niwed neu ofid sylweddol i unigolyn. Yn wyneb hyn, **RHAID cynnal yr holl waith monitro cydraddoldeb yn ddiennw**, a hynny er mwyn osgoi'n llwyr benderfyniadau am unigolion yn cael eu dylanwadu gan y data yma, neu ofid yn cael ei achosi o ganlyniad i ddatgelu gwybodaeth sensitif.

I gael rhagor o wybodaeth am gwestiynau cyffredin am fonitro, **cyfeiriwch at adran 4 y ddogfen yma.** Yn ogystal â hyn, os oes gyda chi unrhyw bryderon neu gwestiynau, ffoniwch y garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529, neu anfon e-bost at cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

2. DEALL MONITRO CYDRADDOLDEB

2.1. Beth yw monitro cydraddoldeb?

Mae monitro cydraddoldeb yn broses dau gam sy'n darparu dull o gasglu data am ein staff a'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae defnyddio data monitro cydraddoldeb yn ein galluogi i asesu pwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau a phwy sydd ddim. Drwy nodi diffygion o ran y mathau o bobl sy'n gallu cael mynediad at ein gwasanaethau, a'r rheiny sydd ddim, bydd modd i adrannau ddod i benderfyniadau mwy effeithlon am y gwasanaethau maen nhw eisoes yn eu darparu, a chaniatáu ar gyfer gwasanaethau wedi'u teilwra'n well yn y dyfodol.

Yn fewnol, mae data monitro cydraddoldeb yn hanfodol er mwyn archwilio cynnydd y Cyngor mewn perthynas â thegwch ac amrywiaeth. Caiff data gan staff eu defnyddio i fonitro ein cynnydd o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chreu gweithlu cynhwysol. Yn ogystal â hyn, mae modd defnyddio'r data yma i fonitro bylchau cyflog gwahanol, megis bylchau cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd.

Yn allanol, mae modd defnyddio data monitro cydraddoldeb i fonitro'r pa gwsmeriaid a thrigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn union fel nodi diffygion o ran mynediad yn fewnol, mae modd i ni ddadansoddi data wedi'u casglu oddi wrth gwsmeriaid i fonitro pa mor hygyrch yw ein gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol, a gwneud gwelliannau wedi'u teilwra i'r gwasanaethau yma, gan ddefnyddio data sydd wedi'u casglu a'u dadansoddi yn sylfaen i hyn.

2.2. Pam mae angen i mi fonitro?

Mae monitro cydraddoldeb yn rhan bwysig o chwalu rhwystrau anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Mae'n ein galluogi i ddeall ein staff a'n cwsmeriaid mewn ffordd fwy manwl.

Wrth gasglu data monitro, mae modd i ni nodi a yw gwasanaethau a phrosesau yn hygyrch i bawb. Yna, mae modd dechrau gwneud addasiadau pan fyddwn ni'n dod o hyd i ddiffygion o ran mynediad.

Nid yn unig y mae modd i ni ddefnyddio'r data rydyn ni'n eu casglu i wneud addasiadau wedi'u targedu lle bo angen, mae modd hefyd ddefnyddio gwaith monitro cydraddoldeb i ddangos ein bod yn ceisio cyrraedd y bobl sydd angen ein gwasanaethau.

Dydy monitro ar ei ben ei hun ddim yn datrys rhwystrau i fynediad nac yn esbonio pam mae gwasanaeth yn cael ei danddefnyddio neu ei ordddefnyddio gan grwpiau penodol o bobl. Ond mae'n fan cychwyn ar gyfer tynnu sylw at faterion a rhwystrau i staff a chwsmeriaid.

Mae data yn ein galluogi i bennu targedau realistig ynghylch sut y gallwn ni wneud gwasanaethau'n fwy cynhwysol a hygyrch, a chreu achosion ar gyfer gwaith sydd angen ei wneud o bosib. Mae modd defnyddio data hefyd i gyfiawnhau buddsoddiad gan fod modd dangos yn uniongyrchol pwy sy'n gallu cael mynediad i'ch gwasanaeth a phwy sydd ddim. Mae monitro yn helpu i ddarparu gwasanaethau mwy cost-ffeithiol ac effeithlon trwy wneud newidiadau wedi'u targedu yn seiliedig ar ddata yn hytrach na thybiaeth.

Mae monitro cydraddoldeb yn fewnol hefyd yn bwysig oherwydd gall helpu i nodi rhwystrau sy'n bodoli yn rhan o'r cylch cyflogi. Wrth gasglu data o'r cyfnod recriwtio ymlaen, bydd gyda ni well dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu, a bydd modd gweithio i gael gwared ar y rhain fel eu bod nhw ddim yn effeithio ar bobl yn y dyfodol. Yna, bydd modd i ni ddefnyddio data diriaethol i asesu'r gwelliannau a wnaed i wirio a ydyn nhw'n effeithiol ai peidio.

Mae modd defnyddio data mewnol hefyd i asesu pa mor effeithiol yw ein polisïau a'n harferion ar gyfer ein staff.

Mae cael proses monitro cydraddoldeb effeithiol a chadarn hefyd yn dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. O safbwynt bod yn sefydliad, mae defnyddio data monitro i wella profiad cwsmeriaid a gwneud i weithwyr deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi yn gwella ein hygyrdded, ac yn ein gwneud yn rhywle lle mae pobl eisiau gweithio.

Mae gyda ni hefyd rwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'r PSED sy'n rhan o'r Ddeddf i sicrhau bod pobl ddim yn wynebu achosion o wahaniaethu neu aflonyddu oherwydd un neu ragor o'u nodweddion gwarchoddedig. Mae monitro cydraddoldeb yn ffordd ddefnyddiol iawn o ddangos ein bod ni'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol yma.

3. BETH SYDD RAID I MI EI WNEUD?

Wrth fonitro cydraddoldeb yn eich maes gwasanaeth, mae'n bwysig tawelu meddwl cwsmeriaid, trigolion a staff bod eu data ddim yn cael eu defnyddio i wahaniaethu neu weithio yn eu herbyn.

Dim ond gwybodaeth sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig dethol sydd wedi'u cynnwys yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y dylech ei chasglu. Mae'r rhain fel a ganlyn¹:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r Cyngor hefyd yn casglu data ar statws unigolion sy'n gyn-filwyr a'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu er mwyn cynnig cymorth wedi'i dargedu i'r grwpiau yma lle bo angen. Unwaith eto, mae'r cwestiynau yma'n ddewisol a dydy data ddim yn cael eu defnyddio i gosbi unigolion.

Oherwydd natur sensitif y data a gaiff eu casglu, mae'n bwysig bod cwestiynau'n cael eu trefnu a'u geirio'n gywir.

Mae'r cwestiynau, yr opsiynau ymateb a'r drefn yma wedi'u tynnu oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol eraill.

¹ Ceir rhestr lawn o'r 9 nodwedd warchoddedig sy'n rhan o'r Ddeddf ar wefan [y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#).

Wrth gynnal gwaith monitro, efallai y byddwch chi'n penderfynu dewis y cwestiynau mwyaf perthnasol ar gyfer anghenion y gwasanaeth. Serch hynny, os ydych chi'n cynnal gwaith monitro yn rhan o ymgynghoriad, neu os bydd y data'n cael eu defnyddio ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rhaid i chi ofyn yr holl gwestiynau sydd wedi'u rhestru er mwyn bodloni'r gofynion sylw dyledus sydd wedi'u cynnwys yn rhan o'r PSED.

Yn ogystal â hyn, os ydych chi'n gofyn y cwestiwn am 'Ryw', rhaid i chi hefyd ofyn y cwestiwn am 'Hunaniaeth Rhywedd' a dilyn arferion gorau o ran geiriad a threfn.

Mae arferion gorau o ran geiriad a threfn cwestiynau i'w gweld yn adran 3.1.1 ac yn atodiad y ddogfen yma. Dylai'r holl waith monitro ddilyn y canllawiau yma er mwyn annog cyfraddau ymateb uwch.

3.1. Arferion gorau o ran monitro

Er mwyn ennyn ymateb yn rhan o waith monitro, mae geiriad penodol ar gyfer pob cwestiwn sy'n cael ei ofyn, yn ogystal â threfn benodol o ran gofyn y cwestiynau yma.

Mae 'ffurflen fonitro - arferion gorau' y mae modd ei haddasu ar gyfer eich adran i'w gweld yn atodiad y ddogfen yma.

3.1.1. TREFN A GEIRIAD CWESTIYNAU

Mae ymchwil wedi dangos bod y rheiny sy'n ymateb yn fwy tebygol o gwblhau arolygon neu holiaduron monitro cydraddoldeb pan gaiff cwestiynau eu trefnu mewn ffordd arbennig.

Yn gyffredinol, dyma argymhell bod y cwestiynau am grefydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn cael eu gwahanu, gan osod y cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd ymhell cyn y cwestiwn am grefydd.

Yn ogystal â hyn, dyma argymhell bod y cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol yn cael ei ddilyn yn syth gan y cwestiwn am ethnigrwydd, nid y ffordd arall.

Rhaid rhestru pob opsiwn ymateb yn nhrefn yr wyddor (ac eithrio 'arall' a 'gwell gen i beidio â dweud').

Mae'n arfer gorau i ddilyn y drefn ganlynol o ran cwestiynau:

1. Oedran
2. Rhyw
3. Hunaniaeth Rhywedd
4. Cyfeiriadedd Rhywiol
5. Hunaniaeth Genedlaethol
6. Ethnigrwydd
7. Anabledd
8. Crefydd neu gred
9. Cyfrifoldebau gofal
10. Beichiogrwydd a Mamolaeth
11. Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog

Mae'r arferion gorau o ran geirio cwestiynau i'w gweld ar dempled y ffurflen fonitro sydd wedi'i chynnwys yn rhan o'r atodiad.

3.2. Pryd mae angen i mi fonitro?

Mae modd cynnal gwaith monitro cydraddoldeb ar unrhyw adeg, yn fewnol ac yn allanol. Mater i'r adran yw penderfynu pryd i fonitro, a pha mor aml. Efallai y bydd yn fuddiol i chi wreiddio gwaith monitro yn rhan o brosesau megis cofrestru ar gyfer gwasanaeth, neu'n flynyddol yn rhan o arolwg i gasglu adborth.

Dylech chi dim ond cynnal gwaith monitro pan fyddwch chi'n gwybod:

- pa wybodaeth yr hoffech ei chaffael o'r ymarfer (e.e. ceisio gwybodaeth am effaith eich gwasanaeth)
- sut yn union y byddwch chi'n defnyddio'r data rydych chi wedi'u casglu. Gallai hyn fod at ddibenion adrodd (er enghraifft, yr adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb), dadansoddi cyflawniad gwasanaeth, recriwtio ac ati.

Ddylech chi ddim cynnal gwaith monitro heb ddiben neu ddefnydd clir, a ddylai data byth gael eu casglu a'u storio heb eu defnyddio.

Dylid egluro diben casglu data i staff a chwsmeriaid y mae disgwyl iddyn nhw lenwi'r ffurflenni monitro.

3.3. Storio data sydd wedi'u casglu

Er mwyn cydymffurfio â'r GDPR, rhaid storio data'n ddiogel ac yn ddiennw, a chael gwared arny'n nhw yn unol â pholisi cadw a gwaredu eich adran.

Wrth ddefnyddio ffurflenni papur i fonitro, dylid trosglwyddo ymatebion i storfa ddigidol ddiogel (e.e. taenlen Excel, dogfen Word ac ati) cyn gynted â phosibl. Wrth aros i fewnbynnu'r ymatebion papur yma i'r storfa ddigidol, dylid cadw'r ffurflenni'n ddiogel (e.e. mewn cabinet dan glo). Dylid cadw'r cofnod digidol yn ddiogel, a dim ond pan fo angen y dylid caniatáu mynediad i aelodau hanfodol o staff. Unwaith y bydd ymatebion y ffurflenni papur wedi'u trosglwyddo i'r ddogfen ddigidol, dylid gwaredu'r ffurflenni papur gan ddefnyddio dulliau gwastraff cyfrinachol.

Wrth fonitro'n ddigidol, dylid cadw ymatebion yn ddiogel i sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn anhysbys. Dylid casglu ynghyd ymatebion ar gyfer pob ymarfer a'u storio mewn un man (taenlen Excel, dogfen Word ac ati) a dylid dileu ymatebion unigol pan fydd y gwaith yma wedi'i gwblhau.

Dim ond cyhyd ag y bo angen y dylid cadw data, a hynny yn unol â pholisi cadw a gwaredu eich maes gwasanaeth.

3.4. Adrodd

Mae'n debygol y byddwch chi'n dewis adrodd ar y data monitro rydych chi wedi'u casglu ynghyd – boed yn fewnol neu'n allanol.

Wrth adrodd, mae'n bwysig sicrhau bod dim modd adnabod unrhyw un o'r data a gaiff eu cyhoeddi. Mae hyn fel arfer yn wir pan fydd niferoedd bach yn ymateb a phan fydd y data'n sensitif (e.e. cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd).

Mewn achosion lle mae nifer yr ymatebion yn fach iawn o'i chymharu â chwestiynau eraill, ddylech chi ddim adrodd ar yr ymatebion yma.

Enghraifft

Ailbennu rhywedd.

Does dim gwybodaeth benodol wedi'i chyhoeddi oherwydd y posibilrwydd o enwi unigolion.

Dyma enghraifft o beidio â chyhoeddi data oherwydd y posibilrwydd o enwi rhywun. Wedi'i dynnu o adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb 2019-20.

Os yw'r sawl sy'n ymateb wedi enwi ei hun yn wirfoddol ar ffurflen fonitro (e.e. wedi ysgrifennu ei enw neu ei gyfeiriad e-bost), rhaid cadw hyn ar wahân i'w ymatebion wrth eu storio a'u cyhoeddi.

3.5. Ar gyfer beth y caf i ddefnyddio data am gydraddoldeb?

Mae modd defnyddio data am gydraddoldeb am wahanol resymau ac i fodloni sawl gofyniad adrodd gwahanol.

Yn y pen draw, mae modd defnyddio data monitro cydraddoldeb i arbed arian a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithiol. Mae modd defnyddio data i wneud gwelliannau a newidiadau wedi'u targedu i brosesau a gwasanaethau, gan arbed arian ar newidiadau sy'n seiliedig ar dybiaethau.

Mae monitro cydraddoldeb yn adnodd allweddol ar gyfer nodi rhwystrau o ran mynediad at eich gwasanaeth, a'u gwaredu. Mae modd defnyddio'r gwaith yma er mwyn nodi pwy sy'n defnyddio'ch gwasanaeth neu'n cael mynediad ato, yn ogystal â nodi pwy sydd ddim. Mae modd defnyddio data hefyd i fod yn gefn i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

4. 'SUT I OFYN' - CWESTIYNAU A PHRYDERON CYFFREDIN

Mae nifer o bryderon a chwestiynau cyffredin sydd gyda phobl mewn perthynas â monitro cydraddoldeb. Mae'r canlynol yn amlygu rhai o'r rhain ac yn awgrymu rhai atebion posibl:

Adnoddau neu gapasiti cyfyngedig

Gallai deimlo'n frawychus, ond fydd rhoi gwaith monitro cydraddoldeb ar waith yn eich gwasanaeth ddim yn cymryd gormod o amser. Does dim rhaid i chi ailddyfeisio'r olwyn – gall cynnwys cwestiynau am gydraddoldeb ar ddiwedd arolwg arferol er enghraifft olygu eich bod yn casglu data am gydraddoldeb heb greu system casglu data newydd.

Cofiwch fod angen i'r amser mae'n ei gymryd i gwsmeriaid (neu staff) ymateb fod yn gymesur â'r math o wasanaeth sy'n cael ei fonitro. Efallai fydd hi ddim yn briodol gofyn i gwsmeriaid ddarparu gwybodaeth fonitro bob tro y byddan nhw'n ffonio gyda chais, neu roi gwybod am rywbeth ar-lein. Yn yr achos yma, efallai y byddai'n fwy buddiol i chi fonitro cyfran o'ch cwsmeriaid yn 'saml cynrychioliadol', a defnyddio'r grŵp yma i nodi diffygion a rhwystrau.

Nifer yr ymatebion yn rhy fach i gyfiawnhau monitro cydraddoldeb

Er bod niferoedd bach o ymatebion yn gallu bod yn rhwystredig, ac yn gallu ei gwneud yn fwy anodd asesu mynediad at eich gwasanaeth yn gywir, mae modd eu defnyddio o hyd. Er enghraifft, mae modd adolygu pam y daeth nifer fach o ymatebion i law ac addasu'r dull cyflwyno (e.e. gweithredu dull 'hawdd ei ddeall', ffurflenni papur, ymgynghori wyneb yn wyneb, ac ati).

Dydy cwsmeriaid ddim eisiau cael eu gofyn

Dydy'r rhan fwyaf o bobl ddim yn gwrthwynebu cael eu gofyn i ateb cwestiynau monitro cydraddoldeb, cyn belled â bod y rhesymeg y tu ôl i'r cwestiynau yn glir a bod ymateb yn ddewisol.

Rhaid i ni sicrhau ein bod ni bob amser yn esbonio i gwsmeriaid a staff pam byddwn ni'n casglu data, ac ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio.

Mae'n arfer da cynnwys datganiad tebyg i'r un isod i roi sicrwydd i gwsmeriaid a staff am y rhesymeg y tu ôl i fonitro cydraddoldeb.

Datganiad enghreifftiol:

'Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ein gweithwyr/cwsmeriaid, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisïau a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn wirfoddol ac yn ddienw a bydd hi'n cael ei defnyddio at ddibenion dadansoddi, monitro a datblygu gwell gwasanaethau.'

Sylwch fod hyn ar wahân i hysbysiad preifatrwydd y mae'n rhaid ei gynnwys ar ffurflenni monitro yn unol â'r GDPR. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Garfan Rheoli Gwybodaeth.

Os oes gyda staff neu gwsmeriaid unrhyw gwestiynau ynghylch monitro, dylid eu hateb yn unol â hynny. Bydd rhai pobl yn penderfynu peidio ag ateb cwestiynau monitro cydraddoldeb, a bydd rhai yn gwrthwynebu i'r cwestiynau yma gael eu gofyn. Yn yr achos yma, dylid rhoi sicrwydd i'r unigolyn fod ateb yn ddewisol, ac egluro'r rheswm dros gasglu eto.

5. CWESTIYNAU A GWYBODAETH GYSWLLT

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth am waith monitro cydraddoldeb, cysylltwch â'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar:

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Ffôn: 01443 444529

Ffurflen fonitro - Arferion gorau (modd i wasanaethau ei haddasu) (CASGLU AR-LEIN/YN DDIGIDOL).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ein gweithwyr, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisiau a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Rydyn ni'n cynnal gwaith monitro er mwyn nodi diffygion o ran mynediad i'n gwasanaethau ni, gan ymateb i hyn trwy wneud newidiadau wedi'u targedu. Caiff data eu defnyddio i wella gwasanaethau ac wrth adrodd yn ôl yn unig. Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gwbl rydd i benderfynu a ydyn nhw'n llenwi'r ffurflen yma ai peidio a does dim canlyniadau o beidio â gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn bwriadu cadw unrhyw wybodaeth bersonol o'r ffurflen yma a fydd yn datgelu pwy ydych chi. Cofiwch hyn wrth ysgrifennu eich atebion yn y bylchau gwag. Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun neu eraill, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'i defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd yn ôl yn unig.

[PWYSIG: Rhaid i chi roi hysbysiad preifatrwydd byr eich adran yma, ac yna, cyfeirio at yr hysbysiad llawn sydd ar wefan y Cyngor. Cysylltwch â Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth am ragor o wybodaeth.]

Oedran

- 16-24
- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65-74
- 75 oed +
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Rhyw

Ydych chi'n:

- Benyw
- Gwryw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

Bydd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yn cael ei ofyn maes o law.

Hunaniaeth Rhywedd

Ydych chi'n uniaethu'n berson:

- Anneuaidd
- Traws
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

(Mae Traws yn derm cyffredinol i ddisgrifio pobl sydd â rhywedd gwahanol i'r un adeg eu geni, neu bobl sy'n anhapus â'r rhywedd a gafodd ei neilltuo iddyn nhw adeg eu geni)

Cyfeiriadedd Rhywiol

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- Deurywiol
- Dyn hoyw
- Menyw hoyw/Lesbiaidd
- Heterorywiol/Syth
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

Hunaniaeth Genedlaethol

Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- Prydeinig
- Cernywig
- Seisnig
- Gwyddelig
- Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Arall (rhowch ddisgrifiad): _____
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Ethnigrwydd

Sut byddech chi'n disgrifio'ch grŵp ethnig?

- Arabaidd

- Asiaidd: Prydeinig
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Bangladeshi
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Tsieineaidd
- Asiaidd: Cernywig
- Asiaidd: Seisnig
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Indiaidd
- Asiaidd: Gwyddelig
- Asiaidd: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Pacistanaidd
- Asiaidd: Albanwr/Albanes
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Dwyrain Asiaidd - Arall
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: De Asiaidd - Arall
- Asiaidd: Cymreig
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Arall (rhowch ddisgrifiad): _____

- Du: Prydeinig
- Du neu Ddu Brydeinig Affricanaidd
- Du neu Ddu Brydeinig Caribïaidd
- Du: Cernywig
- Du: Seisnig
- Du: Gwyddelig
- Du: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Du: Albanaidd
- Du: Cymreig
- Du, Du Prydeinig, neu Ddu Affricanaidd: Arall (rhowch ddisgrifiad): _____

-
- Sipsiwn Seisnig
 - Sipsiwn Gwyddelig
 - Teithiwr Gwyddelig
 - Sipsiwn Albanaidd
 - Teithiwr Albanaidd
 - Sipsiwn Cymreig

- Cymysg/Lluosog: Affricanaidd a Charibïaidd
- Cymysg/Lluosog: Du Prydeinig a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Du Affricanaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Du Caribïaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Dwyrain Asiaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: De Asiaidd a Gwyn
- Cymysg/Lluosog: Arall (rhowch ddisgrifiad): _____

- Roma
- Sinti

- Gwyn: Prydeinig
- Gwyn: Cernywig
- Gwyn: Seisnig
- Gwyn: Sipsiwn
- Gwyn: Gwyddelig
- Gwyn: Teithiwr Gwyddelig
- Gwyn: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Gwyn: Albanaidd
- Gwyn: Cymreig
- Gwyn: Arall (rhowch ddisgrifiad): _____

- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os Grŵp Ethnig arall neu os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch y diffiniad yma: _____

Anabledd

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Fel hyn mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd: '*Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol*'.

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Crefydd neu gred

Beth yw eich crefydd/cred?

- Bwdhydd
- Cristion (gan gynnwys Eglwys Cymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall)
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Anghrefyddol (e.e. Anffyddiwr, Dyneiddiol ac ati)
- Sikh
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os nad yw eich crefydd neu gred wedi'i rhestru neu pe hoffech chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch hynny yma: _____

Cyfrifoldebau rhoi gofal

Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill (neu'n rhoi cymorth iddyn nhw) oherwydd naill ai: cyflwr/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- Nac ydw
- Ydw, 1-19 awr yr wythnos
- Ydw, 20-49 awr yr wythnos
- Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Beichiogrwydd a mamolaeth

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Ydych chi wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu ydych chi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog

Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

- Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma

Ffurflen fonitro - Arferion gorau (modd i wasanaethau ei haddasu) (CASGLU AR BAPUR/AR LAFAR).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ein gweithwyr, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisiâu a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Rydyn ni'n cynnal gwaith monitro er mwyn nodi diffygion o ran mynediad i'n gwasanaethau ni, gan ymateb i hyn trwy wneud newidiadau wedi'u targedu. Caiff data eu defnyddio i wella gwasanaethau ac wrth adrodd yn ôl yn unig. Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gwbl rydd i benderfynu a ydyn nhw'n llenwi'r ffurflen yma ai peidio a does dim canlyniadau o beidio â gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn bwriadu cadw unrhyw wybodaeth bersonol o'r ffurflen yma a fydd yn datgelu pwy ydych chi. Cofiwch hyn wrth ysgrifennu eich atebion yn y bylchau gwag. Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun neu eraill, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'i defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd yn ôl yn unig.

[PWYSIG: Rhaid i chi roi hysbysiad preifatrwydd byr eich adran yma, ac yna, cyfeirio at yr hysbysiad llawn sydd ar wefan y Cyngor. Cysylltwch â Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth am ragor o wybodaeth.]

Oedran

- 16-24
- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65-74
- 75 oed +
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Rhyw

Ydych chi'n:

- Benyw
- Gwryw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

Bydd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yn cael ei ofyn maes o law.

Hunaniaeth Rhywedd

Ydych chi'n uniaethu'n berson:

- Anneuaidd
- Traws
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

(Mae Traws yn derm cyffredinol i ddisgrifio pobl sydd â rhywedd gwahanol i'r un adeg eu geni, neu bobl sy'n anhapus â'r rhywedd a gafodd ei neilltuo iddyn nhw adeg eu geni)

Cyfeiriadedd Rhywiol

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- Deurywiol
- Dyn hoyw
- Menyw hoyw/Lesbiaidd
- Heterorywiol/Syth
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

Hunaniaeth Genedlaethol

Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- Prydeinig
- Cernywig
- Seisnig
- Gwyddelig
- Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Arall (rhowch ddisgrifiad): _____
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Ethnigrwydd

Sut byddech chi'n disgrifio'ch grŵp ethnig?

Defnyddiwch y categorïau a'r bylchau isod i nodi eich ethnigrwydd neu darddiad ethnig:

- Arabaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig
- Du neu Ddu Brydeinig
- Sipsiwn
- Cymysg/Lluosog
- Roma
- Sinti
- Teithiwr/Teithiwr Gwyddelig
- Gwyn

- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os hoffech chi ddisgrifio eich Grŵp Ethnig ymhellach, neu os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, rhowch fanylion: _____

Anabledd

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Fel hyn mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd: '*Amhariad corfforol neu feddylol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol*'.

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Crefydd neu gred

Beth yw eich crefydd/cred?

- Bwdhydd
- Cristion (gan gynnwys Eglwys Cymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall)
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Anghrefyddol (e.e. Anffyddiwr, Dyneiddiol ac ati)
- Sikh
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Os nad yw eich crefydd neu gred wedi'i rhestru neu pe hoffech chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch hynny yma: _____

Cyfrifoldebau rhoi gofal

Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill (neu'n rhoi cymorth iddyn nhw) oherwydd naill ai: cyflwr/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- Nac ydw
- Ydw, 1-19 awr yr wythnos
- Ydw, 20-49 awr yr wythnos
- Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Ydych chi wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu ydych chi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog

Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gyda fi beidio â dweud

- Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma

Adnoddau defnyddiol

- [Casglu data am gydraddoldebau - Safonau sydd wedi'u cysoni ac arferion gorau \(Llywodraeth Cymru ac Ystadegau Cymru\)](#)
- [Gwybodaeth am gydraddoldeb: canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru \(Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol\)](#)